



Adroddiad Blynyddol 2018 – 2019

Cynnwys

GAIR GAN Y CADEIRYDD.....	02
Y BWRDD RHEOLI.....	03
PRIF GYFLAWNIADAU'R FLWYDDYN.....	05
Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI.....	06
Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH.....	14
DIWEDDGLO.....	16
CYFRIFON BLYNYDDOL.....	17

Gair gan y Cadeirydd

Dw i'n teimlo'n falch iawn o gael cyflwyno i chi Adroddiad Blynyddol Antur Nantlle am y flwyddyn 2018-2019.

A ninnau'n byw mewn cyfnod rhyfedd ac ansicr ar sawl ystyr - pan mae pres yn brin, a phobol yn gorfod gwneud dewisiadau anodd ynglŷn â sut i wario faint sydd ganddyn nhw - mae'n dda gallu dweud fod yr Antur yn dal i lwyddo i wneud i bethau diddorol ddigwydd yn y dyffryn hwn.

Ers agor ym mis Medi 2018 mae'r Banc yn ffynnu, ac yn cefnogi pobol a busnesau Dyffryn Nantlle a'r ardal ehangach. Does yna ddim dwywaith ei fod wedi ychwanegu at y bywiogrwydd newydd ar brif stryd Penygroes, gyferbyn â phrosiect adnewyddu Siop Griffiths gan Dyffryn Nantlle 2020, ac mae'r Banc hefyd yn cynnal swyddi ac yn cefnogi cynhyrchwyr lleol.

Ar ben uchaf Dyffryn Nantlle y mae llwyddiant mawr arall Antur Nantlle yn y blynyddoedd diwethaf, lle mae Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu yn croesawu dringwyr a heicwyr o bedwar ban byd am y bedwaredd flwyddyn, a ninnau'n gallu brolio fod mwy o westeion nag erioed wedi aros yma eleni. Rydan ni'n ymfalchïo fod y Ganolfan yn cael ei rhestru ymhlith y llefydd gorau yng ngwledydd Prydain ar gyfer pobol sydd am dreulio amser yn yr awyr agored, yn gwerthfawrogi mynyddoedd Eryri a'r harddwch naturiol sydd ar stepen ein drws.

Ond does yna ddim dwywaith mai'r modd y mae tenantiaid Antur Nantlle yn cyfrannu at fywyd yr ardal, ydi un o'r pethau yr ydw i fwya' balch ohonyn nhw. Maen nhw'n cyfrannu'n sylweddol i'r economi, ac maen nhw mor bwysig o ran cyflogi a chadw gwasanaethau yn lleol. Mae'r Antur hefyd yn benderfynol o gynnal a gwella a buddsoddi yn yr adeiladau sydd ganddo ledled yr ardal, er mwyn gwarchod mwy na 90 o swyddi.

Mae'r Antur hefyd yn lwcus o'i staff, ac mae ein diolch yn fawr i bob un ohonyn nhw am rannu yn y weledigaeth a gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn tynnu i'r un cyfeiriad. Diolch arbennig i Robat Jones, ein Prif Swyddog, am ei egni ymarferol wrth wynebu pob her ar y daith.

Wrth edrych ymlaen at flwyddyn arall o 'wneud' ac nid 'dweud', rydan ni'n awyddus i glywed unrhyw syniadau ynglŷn â'r hyn liciech chi ei weld yn digwydd yn ac i Ddyffryn Nantlle yn y dyfodol. Rydan ni'n gwybod fod cynlluniau i drawsnewid hen safle garej Paragon, Penygroes... ond oes yna bethau eraill y gallwn ni fod yn eu gwneud? Gadewch i ni wybod.

Gyda'n gilydd, mae modd cyflawni llawer.

KAREN OWEN
CADEIRYDD

Y Bwrdd Rheoli



Karen Owen
CADEIRYDD



Eifion Davies
IS-GADEIRYDD



Myrddin Williams



Dafydd Owen



Gwynne Williams



Beryl Fretwell



Emrys Jones



John Pritchard




Owain Rowlands



Dyfed Edwards



Judith Humphreys



Talfryn Griffiths



Richard Wyn Huws



Alun Ffred Jones

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Karen Owen CADEIRYDD

Eifion Davies IS-GADEIRYDD

Myrddin Williams

Dafydd Owen

Gwynne Williams

Beryl Fretwell

Emrys Jones

John Pritchard

Owain Rowlands

Dyfed Edwards

Judith Humphreys

Talfryn Griffiths

Richard Wyn Huws

Alun Ffred Jones

Bardd a newyddiadurwraig

Rheolwr cwmni deunyddiau adeiladu

Pen Swyddog Adnewyddu eiddo wedi ymddeol

Cyfarwyddwr gwasg a chwmni teithio

Peiriannydd gwresogi wedi ymddeol

Swyddog menter gymdeithasol wedi ymddeol

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ymddeol

Cyfrifydd wedi ymddeol

Rheolwr lleoliadau digwyddiadau

Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru

Cynghorydd Penygroes ar Gyngor Gwynedd

Cyfreithiwr a Barnwr wedi ymddeol

Perchennog gwinllan a gŵr busnes

Aelod Cynulliad wedi ymddeol

Ysgrifennydd y Cwmni

Robat Jones

Bancwyr

HSBC, Cangen Caernarfon

Archwilwyr

A. Hughes-Jones, Dyson & Co. (Cyfrifwyr Siartredig), Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1NS

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 7 cyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth a'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi hefyd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar nos Lun, Tachwedd 15^{fed} 2018 ym Mhant Du, Penygroes. Yn unol â'r cyfansoddiad bu i bedwar o'r cyfarwyddwyr ymddeol o'r Bwrdd – Richard Wyn Huws, Myrddin Williams, Beryl Fretwell a Karen Owen. Ail etholwyd y pedwar.

Staff

Robat Jones

Prif Swyddog Antur Nantlle

Bet Hughes

Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg, Swyddfa'r Antur, y Llyfrgell a Siop 22

Nerys Jones

Gofalwraig y Ganolfan Fenter

Nia Noone

Gofalwraig Tŷ Iorwerth a Chapel Salem

Diane Owen

Cynorthwyydd Siop Cynnyrch Lleol a Lle Chwarae Y Banc

Lona Jones

Cynorthwyydd Siop Cynnyrch Lleol a Lle Chwarae Y Banc

Prif Gyflawniadau'r Flwyddyn



addysg a HYFFORDDIANT

250 wedi derbyn addysg, hyfforddiant a phrofiadau awyr agored dan arweiniad proffesiynol

Mae Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu wedi ei sefydlu yn gadarn fel cyrchfan i ymwelwyr, ac mae'r gwaith o ddenu ymwelwyr i Ddyffryn Nantlle drwy hyn yn dwyn ffrwyth. Mae Y Banc a nifer o sefydliadau eraill yn cynnig rheswm arall i ymwelwyr ddod i'r dyffryn gyda'r nod o gryfhau'r economi leol.




Rhoi'r Dyffryn AR Y MAP



Trafod, cydweithio a chefnogi

32 o fudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth; **6,500** wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir

Mae Y Banc ym Mhenygroes ar agor ers dros 12 mis bellach. Mae'r deli, siop cynnyrch a chrefftau lleol a lle chwarae i blant bach yn gyfuniad poblogaidd iawn gyda thrigolion lleol yn ogystal â'r nifer cynyddol o ymwelwyr sy'n galw i bentref Penygroes unwaith eto.



CYNNAL, CADW A GWELLA ADEILADAU YN Y GYMUNED

£50,000+ o fuddsoddiad gan ddefnyddio cyflenwyr lleol ble bynnag bo hynny'n bosibl, fel rhan o raglen waith barhaol i gadw adeiladau lleol mewn cyflwr da er budd ein tenantiaid a'r gymuned

Dros **90** o swyddi yn cael eu gwarchod yn ardal Dyffryn Nantlle a **£40,000+** o incwm wedi ei greu i gynhyrchwyr a chrefftwyr annibynnol sy'n rhan o fenter Y Banc – cyfraniad sylweddol i'r economi leol a seiliau cadarn yn cael eu gosod i'r dyfodol.



Y Pwyllgor Diwydiant ac Economi

Cadeirydd: Dafydd Owen

Is-grwpiau Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle.


Yn dilyn blynyddoedd o ansicrwydd a thoriadau, mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol ymhell o fod yn glir, yn enwedig ar lefel gwladol a rhyngwladol, ond o leiaf gallwn fod yn ddiolchgar fod y sefyllfa yma yn Nyffryn Nantlle ychydig yn fwy gobeithiol er pob her.

Mae'r Antur a Siop Griffiths wedi llwyddo i ddenu grantiau sylweddol i'r ardal yn ddiweddar a chreu prosiectau sydd â'r potensial i ddod â buddion hirdymor i

Ddyffryn Nantlle. Mae Grŵp Cynefin yn arwain ar gynllun cyffrous ofnadwy i ddod â Chanolfan Feddygol i Benygroes - prosiect sydd hefyd yn cynnwys elfennau cymdeithasol cryf. Ac ar ben hyn mae cais Cyngor Gwynedd i glustnodi dyffrynnoedd llechi'r sir, yn cynnwys Dyffryn Nantlle fel safle Treftadaeth y Byd UNESCO ar y gweill. Os yn llwyddiannus, fe fydd hyn yn siŵr o ddenu ymwelwyr i'r ardal a chreu cyfleoedd economaidd, ac mae gofyn i ni fod yn barod amdanynt.

Yn gefn i hyn i gyd wrth gwrs mae'r busnesau a sefydliadau sydd wedi bod yn gweithio yn ddiwyd ers blynyddoedd i gynnig gwasanaethau a chynnal swyddi yma yn y Dyffryn. Mae ein diolch iddynt, fel tenantiaid ac fel arall, yn fawr.

Yr ydym o hyd yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno gyda ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.



Y Banc

Ers agor ei ddrysau ar ei newydd wedd ym mis Medi 2018 mae Y Banc wedi llwyddo i ddenu miloedd o bobl drwy'r drws.

Mae'r cyfleusterau yn apelio i drigolion lleol ac ymwelwyr, ac rydym wedi gweld cynnydd pendant yn y nifer o bobl sy'n galw drwy'r pentref.

Dim ond rhan o gynllun gwaith hirdymor yw hyn wrth gwrs ac mae rhagor o waith eto i'w wneud, ond gyda nifer o ddatblygiadau newydd eraill wedi eu sefydlu yn ddiweddar, a rhai pellach ac uchelgeisiol iawn ar y gorwel, mae pobl yn siarad am Benygroes a Dyffryn Nantlle, ac yn dod yma i weld y chwyldro tawel sy'n digwydd yma.

Ein gobaith drwy chwarae rhan yn y gwaith adfywio yma yw y bydd pob unigolyn, busnes a sefydliad lleol yn elwa ohono.



Ar dy feic...



Ar y cyd gydag Arloesi Gwynedd Wledig a Menter Môn, mae'r Antur wedi bod yn gweithio ar gynllun beicio ffordd 'Gwerth yn y Wlad' eleni.

Prosiect yw hwn sy'n edrych ar ychwanegu gwerth i asedau naturiol sy'n bodoli'n barod, drwy fentro i mewn i feysydd awyr

agored newydd – yn fyr, i wneud y mwyaf o'r hyn sydd gennym ar garreg ein drws a chreu buddion economaidd i'n hardal.



Y sbardun i'r prosiect oedd bod y diwydiant Gweithgareddau Awyr Agored a Threftadaeth yn sicr yn dod a budd economaidd i Wynedd, ond roedd cwestiwn yn bodoli os yw cymunedau lleol a phobl gynhenid yn manteisio'n llawn o'r asedau sydd ganddynt i gynnig i gyfranogwyr y gweithgaredd. Mae'r sector beicio ffordd wedi tyfu'n aruthrol dros y blynyddoedd diweddar gyda 2 filiwn o bobl yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos yn ôl Beicio Prydain, y corff sy'n rheoli'r gamp ym Mhrydain.

Mae nifer o lonydd a llwybrau beicio dynodedig yng Ngwynedd sydd yn rhoi cyfle i bobl leol ac ymwelwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, a'r dewis o Lonydd Glas, sef llwybrau oddi ar y ffordd sy'n cynnig beicio diogel a hamddenol – yn cynnwys Lôn Eifion sy'n rhedeg drwy'r Dyffryn – heb eu hail.

I ychwanegu gwerth i'r economi leol, bwriad y prosiect oedd cysylltu busnesau gyda beicio. Bu i'r Antur gydweithio gyda Menter Môn / Arloesi Gwynedd Wledig a chwmni Dan Haul Cyf, i beilota gwasanaethau amrywiol i feicwyr a monitro diddordeb a defnydd.

Cynhaliwyd ymweliad heb rybudd 'mystery shopper' gan Dan Haul Cyf, ac arweiniodd hyn at restr o awgrymiadau a chyngor ar sut i farchnata i feicwyr. O safbwynt Y Banc, rhai awgrymiadau oedd:

- Cynnig lle i gadw beics yn ddiogel - gosod offer ar gyfer hyn;
- Gosod arwydd i dargedu beicwyr - beic wedi ei beintio'n felyn;
- Darparu gwybodaeth cyffredinol am lwybrau beic lleol; a
- Sefydlu gofod tu allan gyda byrddau a chadeiriau i godi sylw beicwyr.

Bellach, rydym yn cynnig storfa feics ddiogel ac offer i drwsio beics tu ôl i'r Banc; mae gennym feic wedi ei beintio yn felyn i dynnu sylw beicwyr gyda diolch mawr i Ysgol Hafod Lon; mae byrddau a chadeiriau ar gael i feicwyr eistedd tu allan i'r Banc ar dywydd braf, ac rydym yn darparu mapiau am lwybrau beicio a cherdded yn rhad ac am ddim.

Ers lansio'r cyfleusterau newydd rydym wedi gweld cynnydd pendant yn y nifer o feicwyr sydd yn galw heibio'r pentref a gobeithio bydd hyn yn parhau i'r dyfodol wrth i'r beicwyr alw i mewn am baned a rhywbeth melys cyn mentro ar her allt Drws y Coed!



Uchod, y ffrâm ac offer trwsio beics a'r pwmp, a'r ffrâm i gadw beics yn ddiogel (tra'n ymweld â rai o fusnesau'r pentref). Isod, un o'r mapiau a'r taflenni sydd ar gael yn rhad ac am ddim i bawb yn Y Banc.



Y Co-Op cynhyrchwyr lleol yn mynd o nerth i nerth

Bellach mae dros 20 o gynhyrchwyr lleol yn manteisio ar y cyfle i werthu eu cynnyrch yn siop Y Banc. Diolch i Lona Jones a Diane Owen – staff yr Antur sy'n rhedeg y siop – a staff Deli'r Banc, mae Y Banc yn le croesawgar a hwyliog i dreulio ychydig o amser a mwynhau danteithion blasus mewn awyrgylch braf. Cewch yma bob math o gynnyrch a'r rhan helaeth wedi eu gwneud â llaw yma yn Nyffryn Nantlle.

Mae model arloesol Y Banc gyda nifer o fusnesau yn gweithredu o dan yr un to yn rhoi'r cyfle i gynhyrchwyr lleol gael eu siop eu hunain mewn partneriaeth â'r cyflenwyr eraill, am ffracsiwn o'r gost o redeg eu siop eu hunain (llai na punt y diwrnod heb gynnwys TAW). Ers agor y drysau, rydym yn ymfalchïo o fod wedi gwerthu **dros £40,000** o gynnyrch ar ran y cynhyrchwyr.

Ein nod yw meithrin busnesau crefft bychan a chynhyrchwyr i dyfu mewn modd cynaliadwy, gyda'r gobaith y byddent yn tyfu ac agor eu siopau eu hunain yma yn y Dyffryn a fydd yn gam arall tuag at adfywiad y stryd fawr ac economi'r ardal.

Mae gennym wastad le ar y silffoedd i helpu rhagor o fusnesau felly cysylltwch heddiw os am werthu eich cynnyrch yn y Banc.

Deli, siop cynnyrch lleol, 'co-op' cynhyrchwyr lleol, man
chwarae i blant bach, pwynt Wi-Fi ffeibr am ddim,
cyfleusterau i feicwyr

Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

O NERTH I NERTH... *ystadegau ers agor yn 2015*

£125,000^{*}
incwm

5,500^{**}
o westeion



* YN CYNNWYS TAW

** HYD AT DDYDDIAD PARATOI'R ADRODDIAD

gwaith cynnal a chadw
i barhau i wella'r cyfleusterau

cynnig telerau ffafriol i ysgolion a
chymdeithasau lleol ac elusennau
rhoi cyfle i bawb fwynhau'r awyr agored


gweithio mewn partneriaeth
i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib
drwy gyfrwng y Gymraeg

hybu'r dyffryn
ac annog gwesteion i mewn i'r ardal
er mwyn cefnogi busnesau lleol

Llwyddiant parhaol, gwerth am arian a safonau uchel

Wedi i Ganolfan Rhyd Ddu gael ei chynabod fel un o'r 10 caban cysgu annibynnol gorau yng ngwledydd Prydain llynedd, mae adborth ein gwesteion wedi parhau i fod yn ffafriol iawn eto eleni.

Mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn cael eu dyfarnu gan ein gwesteion i fod ymysg y gorau sydd ar gael yn Eryri am lety o'r fath, ac rydym yn gweld nifer cynyddol o westeion yn dod yn ôl i aros yma flwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n galonogol iawn.



Hyfforddiant a phrofiadau awyr agored



Mewn partneriaeth â Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd rydym yn darparu hyfforddiant awyr agored hollol ddwyieithog o'r radd flaenaf gan arweinwyr profiadol a thrwyddedig, yn cynnwys defnydd offer arbenigol.

Mae'r dewis o weithgareddau yn eang iawn â'r arlwy yn cynnwys canwio, cerdded afon, dringo, beicio mynydd, mynydda, cyfeiriannu a

mwy - rhywbeth at ddant pawb.

Mae nifer o ysgolion lleol yn cael budd o'r gwasanaeth hwn am delerau ffafriol, ac eleni gwelsom nifer o ysgolion o du hwnt i Gymru yn ogystal â grwpiau preifat yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth.

Gwasanaeth arlwyo

Mewn partneriaeth â Deli'r Banc, rydym hefyd yn awr yn cynnig pecynnau arlwyio i westeion yn amrywio o becynnau bwyd i brydau nos. Mae'r adborth am y gwasanaeth yma gan westeion wedi bod yn ffafriol dros ben, ac rydym yn falch iawn o weld busnes o'r dyffryn yn elwa yn y modd yma o'r cyfleoedd sy'n bodoli drwy Ganolfan Rhyd Ddu.

Rydym yn ceisio hysbysebu'r amrywiaeth eang o fusnesau a gwasanaethau sydd ar gael yn Nyffryn Nantlle i bob un o'n gwsteion, a'n gobaith yw y bydd yr economi leol yn elwa yn uniongyrchol o hyn fwy byth fel mae amser yn mynd yn ei flaen.




Y Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth

Cadeirydd: Myrddin Williams

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle sy'n cadw llygad ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal, cadw ac uwchraddio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor sy'n trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod 99% o'n hunedau a'n swyddfeydd yn llawn, sydd unwaith eto yn dangos y galw am lefydd gwaith yn ardal Dyffryn Nantlle.

10 adeilad
27 uned waith
20 swyddfa
4 siop
1 canolfan awyr agored
1 llyfrgell
1 ystafell hyfforddiant
1 ystafell gyfarfod
1 iard
1 fflat
1 lle chwarae i blant



Mae'r rhan fwyaf o'r unedau gwaith sydd ar osod yn y Dyffryn gan berchnogion eraill yn cynnwys Cyngor Gwynedd hefyd yn llawn, sy'n galonogol iawn.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol a'n telerau yn rhesymol iawn, ac fel rhan o'n polisi i gefnogi menter mae'r Antur yn cynnig hwb i fusnesau newydd sbon drwy roi dau fis o rent yn rhad ac am ddim iddynt.

Mae rhaglen yr Antur o brynu a datblygu eiddo segur yn Nyffryn Nantlle ers 1991 wedi sicrhau fod nifer fawr o adeiladau – portffolio eiddo gwerth dros **£1miliwn** – wedi eu diogelu at ddefnydd busnesau lleol, sy'n hwb mawr i'r gymuned a'r economi.

Rydym o hyd yn awyddus i gydweithio gydag unrhyw gorff neu asiantaeth sy'n gweithredu i hybu menter a chreu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn ardal Dyffryn Nantlle, felly mae ein hystafelloedd hyfforddiant a chyfarfod ar gael i unrhyw un sydd eisiau cynnal gweithgareddau o'r math yma. Mae'r Ganolfan Dechnoleg yn cael ei defnyddio i gynnal cyrsiau, cyfarfodydd, sesiynau addysg un-i-un a llawer mwy; a Chanolfan Rhyd Ddu yn ganolbwynt i weithgareddau a hyfforddiant awyr agored.

Ychydig iawn o newid fu yn rhestr tenantiaid yr Antur eleni, ond cawsom y pleser o groesawu tenantiaid newydd i gychwyn ar eu taith o sefydlu busnes newydd yn Nyffryn Nantlle, a chefnogi tenantiaid presennol i weithio a chynnig eu gwasanaethu i Ddyffryn Nantlle a thu hwnt. Mae'n gyffrous iawn cael gweld a bod yn rhan o'r datblygiadau yma, a braint yw i ni gael chwarae rôl gynorthwyol yn hyn i gyd.

Mae'r Antur yma i greu cyfleoedd
a rhoi seiliau cadarn yn eu lle fel gall
entrepreneuriaid lleol fentro a llwyddo.
Drwy gefnogaeth a chymorth yr Antur mae
cyfleoedd yma yn Nyffryn Nantlle i fusnesau
lleol sefydlu a thyfu. Gyda syniadau, gweledigaeth
a gwaith caled y busnesau yma a chefnogaeth ffyddlon
trigolion lleol iddynt hwythau, rydym gyda'n gilydd yn
cydweithio tuag at y nod o adfywiad economaidd yr ardal.

Mae'n bwysig iawn nodi cyfraniad staff glanhau'r Antur sy'n gofalu am yr eiddo sef Bet Hughes (Gofalwraig y Llyfrgell, y Ganolfan Dechnoleg, Siop 22 a Swyddfa'r Antur), Nerys Jones (Gofalwraig y Ganolfan Fenter) a Nia Noone (Gofalwraig Tŷ Iorwerth a Chapel Salem). Diolch yn fawr am eich gwaith caled yn cadw'r adeiladau yn dwt ac yn daclus er budd y tenantiaid a'u cwsmeriaid unwaith eto eleni.

Diolch yn fawr hefyd i Diane Owen a Lona Jones sydd rhyngddynt yn sicrhau fod y siop a'r lle chwarae i blant yn Y Banc yn rhedeg yn esmwyth a'r silffoedd yn llawn a deniadol bob amser.

Diolch i chi i gyd am eich gwaith trefnus a thrwyadl.

Diwedd glo

Yn dilyn cyfnod prysur iawn o ddatblygu adeilad Y Banc llynedd a sefydlu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu fel un o'r prif leoliadau i grwpiau aros yn Eryri dros y blynyddoedd diwethaf, bu eleni yn flwyddyn o brysurdeb o fath gwahanol, drwy:

- ymgymryd â rhaglen cynnal a chadw barhaol ar ein hadeiladau er budd ein tenantiaid a'r ardal leol;
- gydweithio gyda nifer o wahanol sefydliadau i geisio adnabod cyfleoedd newydd a datblygiadau pellach fydd o fudd i Ddyffryn Nantlle i'r dyfodol; a
- denu rhagor o gynhyrchwyr i fod yn rhan o gynllun cydweithredol arloesol Y Banc gan roi cyfle i dros ugain o gynhyrchwyr a chrefftwyr lleol sefydlu a thyfu busnesau hyfyw i'r dyfodol.

Mae'r bwrlwm gychwynnodd gydag agoriad Y Banc ym mis Medi 2018 wedi parhau gyda nifer o ddatblygiadau eraill wedi dilyn ac ar y gorwel.

Mae teimlad o'r diwedd mai 'dyma gyfle Dyffryn Nantlle' gyda buddsoddiadau mawr a chynlluniau cyffrous iawn yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Mae pobl yn cymryd sylw

o'r hyn sydd yn digwydd yma, ac mae'n bwysig fod y momentwm yma yn parhau a'n bod, fel ardal, yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael a'r rhai sydd i ddod.

Nid yw adfywio yn waith hawdd bob amser; yn wir mae'n ddigon rhwystredig ar adegau ac mae'r angen i fod yn amyneddgar yn hollbwysig. Ond mae'r Antur wastad yn ceisio edrych am gyfleoedd newydd, a'r amgylchiadau iawn i weithredu cynlluniau ddaw a buddion i drigolion y Dyffryn. Efallai daw cyfle i gynnig gwasanaethau newydd yn sgîl cau hen siop y Co-Op - rydym yn edrych ar y posibilïadau.

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu ym 1991: datblygu cynlluniau ddaw a gwelliannau economaidd a chymdeithasol i ardal Dyffryn Nantlle a chreu cyfleoedd i bobl leol fentro eu hunain.

Rydym wastad yma i wrando a thrafod syniadau: gweithio gyda'n gilydd fel un yw'r ffordd orau i warchod a gwella ein cymunedau. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â ni i weithio er lles yr ardal. Mae'r drws ar agor i bawb.

DIOLCH

Cyfrifon Blynyddol

ANTUR NANTLLE CYF.

Rhif Y Cwmni : 2618216

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2019

A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON

ANTUR NANTLLE CYF.

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	1
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	2
Adroddiad Yr Archwilwyr	3 - 4
Datganiad Incwm	5
Mantolen	6
Nodiadau	7- 9
Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl	10

ANTUR NANTLLE CYF.
Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2019

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 2019.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

Talfryn Griffiths
John Pritchard
Dafydd Owen
Dyfed Wyn Edwards
Gwynne Williams
Eifion Wyn Davies
Judith Humphreys
Alun Ffred Jones

Beryl Fretwell
Richard Wyn Huws
Emrys Jones
Myrddin Williams
Owain Rowlands
Karen Owen

Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilywyr

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilywyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymeryd y camau y dylent fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilywyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

Archwilywyr

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariathau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Dyddiad: 22/8/19


Drwy orchymyn y bwrdd

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmnïau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmnïau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmnïau 2006.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad:

22/8/19


Drwy orchymyn y bwrdd

Adroddiad Yr Archwilywyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf (y 'Cwmni') am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2019 sydd yn cynnwys y Datganiad Incwm, Y Fantolen ar nodiadau i'r Datganiadau Ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi y cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbyniwyd yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilywyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

- rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2019 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmnïau 2006.

Sail Ein Barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilywyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol.

Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer sail ein barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi lle:

- nid yw defnydd y cyfarwyddwyr o sail busnes byw ar gyfer paratoi y datganiadau ariannol yn briodol ; neu
- nid yw'r cyfarwyddwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol sydd yn achosi amheuaeth arwyddocaol am allu'r cwmni i barhau i ddefnyddio'r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, ond nid

yw'n cynnwys y datganiadau ariannol ac ein Adroddiad yr Archwilywyr arno.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o farn sicrwydd arno.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gasglwyd yn yr archwiliad neu fel arall ymddengys ei fod wedi ei gamddatgan yn faterol . Os, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i berfformio, rydym yn casglu bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael ei baratoi yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- Paratowyd Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi

camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddi wrth ganghennau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofynol dan gyfraith cwmnïau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad; neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmnïau bach ac i gymerd mantais o'r eithriad i gwmnïau bach or gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu wrth baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Fel yr eglurwyd yn fwy llawn yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 2, y cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am baratoi

datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn dangos darlun gwir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath a benderfynir gan y cyfarwyddwyr yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes byw gan ddatgelu materion ble'n berthnasol, materion cysylltiedig i'r sail busnas byw ar defnydd o'r sail cyfrifyddu busnas byw oni bai bod y cyfarwyddwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu dod a gweithrediadau i ben neu os does dim dewis realistig arall ond i wneud hynny.

Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein amcanion yw casglu sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr sy'n cynnwys ein barn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli.

Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn sylweddol pe bai, yn unigol neu ar y cyfan, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a gymerwyd gan defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi ei leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yma yn ran o Adroddiad yr Archwilwyr



Dyddiad: 22/8/19

Mr Brian Hughes (Prif Archwiliwr Statudol)
ar ran A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni
Archwilwyr Statudol a Cyfrifwyr Siartredig
Capel Moreia, South Penrallit, Caernarfon, Gwynedd LL55 1NS

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad Incwm Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2019

	Nodiadau	2019	2018
		£	£
Incwm		239,564	143,449
Gwariant		<u>(246,181)</u>	<u>(121,405)</u>
Incwm Sy'n Weddill	2	(6,617)	22,044
Llog Derbyniadwy		41	33
Llog a Dalwyd		<u>(3,587)</u>	<u>(3,959)</u>
Gweddill Cyn Trethiant		(10,163)	18,118
Trethiant	3	<u>(3,103)</u>	<u>(3,055)</u>
Gweddill Ar OI Trethiant		(13,266)	15,063
Gweddill Ddygwyd Ymlaen		<u>167,487</u>	<u>152,424</u>
Gweddill Cariwyd Ymlaen		<u>154,221</u>	<u>167,487</u>

ANTUR NANTLLE CYF
Mantolen Ar Fawrth 31, 2019

	Nodiadau	2019		2018	
		£	£	£	£
Asedau Sefydlog					
Asedau Cyffyrddadwy	5		698,162		689,542
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	6	26,039		11,821	
Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw		<u>76,125</u>		<u>106,270</u>	
		102,164		118,091	
Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	7	<u>(43,184)</u>		<u>(43,371)</u>	
Asedau Cyfredol Net			<u>58,980</u>		<u>74,720</u>
Cyfanswm Asedau Llai					
Rhwymedigaethau Cyfredol			757,142		764,262
Credydwy: symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn					
Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	8		(157,142)		(149,976)
Benthyciadau banc	9		(45,576)		(51,906)
Treth Gohiriedig			<u>(7,257)</u>		<u>(1,947)</u>
			<u>547,167</u>		<u>560,433</u>
Cronfeydd					
Cronfa Elw a Cholled			154,221		167,487
Cronfa Ailbrisio	10		<u>392,946</u>		<u>392,946</u>
			<u>547,167</u>		<u>560,433</u>

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15
o Ddeddf Cwmiau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

David Cyfarwyddwr

John P. Pitchford Cyfarwyddwr

22/8/19 Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2019

1 Polisiau Cyfrifyddol

Y sail gyfrifyddol

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a gofynion Adran 1A "Unedau Llai" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfrifon wedi ei paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.
 Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

Tir ac adeiladau - 4%/5% o'r gost pob blwyddyn
 Offer - 20% drwy'r dull mantol yn lleihau
 Cyfrifiaduron - 25% drwy'r dull mantol yn lleihau

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

Grantiau

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn flynyddol i'r cyfrif Incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

Trethiant

Mae trethiant ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cynnwys treth gyfredol a gohiriedig. Cydnabyddir treth yn y datganiad incwm, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir fel incwm cynhwysfawr arall neu yn uniongyrchol mewn ecwiti.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau trethiant cyfredol neu ohiriedig yn cael eu disgowntio.
 cydnabyddir trethiant cyfredol fel y swm treth sy'n daladwy gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol erbyn dyddiad y fantolen.

Treth Ohiriedig

Cydnabyddir treth ohiriedig o ran yr holl wahaniaethau amser sydd wedi tarddu ond heb eu gwrthdroi eto ar ddyddiad y fantolen.

Mae gwahaniaethau amseru'n codi o gynnwys incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau gwahanol i'r rhai y maent yn cael eu cydnabod mewn datganiadau ariannol. Caiff treth ohiriedig ei fesur gan ddefnyddio cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd erbyn diwedd y flwyddyn a disgwylir iddynt fodoli pan fydd y gwahaniaethau amseru yn gwrthdroi.

Archwilwyr

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

2 Incwm Sy'n Weddill

	2019	2018
	£	£
Mae'r incwm sy'n weddill ar ol; <i>Rhoi credyd am;</i> Incwm Gohiriedig a ryddhawyd	<u>24,634</u>	<u>23,930</u>
<i>Ac ar ol codi am:</i>		
Dibrisiant	28,901	25,195
Archwilio	<u>2,290</u>	<u>2,260</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2019

3	Treth Gorfforaeth	2019	2018
		£	£
	Treth Ohiriedig	5,310	(529)
	Darpariaeth am y Flwyddyn	(2,207)	3,584
		<u>3,103</u>	<u>3,055</u>
4	Gweithwyr		
	Ar gyfartaledd roedd nifer y gweithwyr cyflogedig yn 6 (2018 yn 4.)		
5	Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy		
	Tir Rhydd-ddaliad		
	Ac Adeiladau	Offer	Cyfanswm
	£	£	£
Cost			
Ar Ebrill 1af 2018	743,831	32,880	776,711
Ychwanegiadau	-	37,521	37,521
	<u>743,831</u>	<u>70,401</u>	<u>814,232</u>
Ar Fawrth 31 2019			
	<u>743,831</u>	<u>70,401</u>	<u>814,232</u>
Dibrisiant			
Ar Ebrill 1af 2018	64,535	22,634	87,169
Codiant am y flwyddyn	19,329	9,572	28,901
	<u>83,864</u>	<u>32,206</u>	<u>116,070</u>
Ar Fawrth 31 2019			
	<u>83,864</u>	<u>32,206</u>	<u>116,070</u>
Gwerth Ar Bapur Net			
Ar Fawrth 31 2019	<u>659,967</u>	<u>38,195</u>	<u>698,162</u>
Ar Fawrth 31 2018	<u>679,296</u>	<u>10,246</u>	<u>689,542</u>
6	Dyledwyr	2019	2018
		£	£
Dyledwyr Eraill	17,277		3,539
Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd	8,762		8,282
	<u>26,039</u>		<u>11,821</u>
7	Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn		
	£		£
Benthyciad banc	6,334		5,937
Credydwy'r eraill	28,799		28,329
Treth Gorfforaeth	1,389		3,596
TAW	<u>6,662</u>		<u>5,509</u>
	<u>43,184</u>		<u>43,371</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2019

8 Croniadau Ac Incwm Gohiriedig

	£
Ar Ebrill 1af, 2018	149,976
Grant am y Flwyddyn	31,800
Swm a Rhyddhawyd	24,634
Ar Fawrth 31, 2019	<u>157,142</u>

9 Credydwy'r Symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn

	2019	2018
	£	£
Benthyciadau Banc	<u>45,576</u>	<u>51,908</u>
Dyled yn daladwy mewn mwy na blwyddyn		
ad-daladwy rhwng un a phum mlynedd	29,874	28,000
ad-daladwy ar ol pum mlynedd	<u>15,702</u>	<u>23,908</u>
	<u>45,576</u>	<u>51,908</u>

10 Cronfeydd

	Cronfa Gwerth Teg
	£
Ar 1af Ebrill 2018 ac Mawrth 31 2019	<u>392,946</u>

11 Gwybodaeth Statudol

Mae Antur Nantlle Cyf yn gwmni preifat ac yn gyfyngiedig drwy warant.
Mae'r cwmni wedi ei gofrestru yn Nghymru a Lloegr.

Swyddfa gofrestredig Canolfan Dechnoleg
20 Heol Y Dwr
Penygroes
Caernarfon, LL54 6LR

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2019

	2019		2018	
	£	£	£	£
Incwm				
Gwasanaethau		8,367		11,486
Rhent		100,473		99,428
Ffioedd Rheoli		2,006		1,322
Canolfan Rhyd Ddu		30,564		30,973
Incwm Y Banc		5,365		-
Grantiau		92,337		-
Incwm Arall		<u>452</u>		<u>240</u>
		239,564		143,449
Gwariant				
Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau	(24,634)		(23,930)	
Cyflogau	54,925		42,437	
Costau Pensiwn	1,628		1,273	
Costau Teithio	584		629	
Costau Rhyd Ddu	8,631		6,720	
Pryniant Siop Y Banc	371			
Costau Swyddfa	822		817	
Llogi Offer	627		534	
Ffon	1,567		2,844	
Hysbysebu	1,585		2,055	
Costau Cynnal A Chadw	28,426		32,520	
Adnewyddu Adeiladau	108,945		-	
Gwres a Goleuo	11,419		8,395	
Trethi	2,828		1,419	
Yswiriant	11,036		10,087	
Costau Archwilio	2,290		2,260	
Costau Proffesiynol	2,910		5,231	
Costau Banc	1,852		966	
Manion	1,468		1,953	
Dibrisiant Ar Adeiladau	19,329		22,603	
Dibrisiant Ar Offer	<u>9,572</u>		<u>2,592</u>	
		246,181		121,405
Gweddill/(Colled) am y flwyddyn		<u>(6,617)</u>		<u>22,044</u>



Swyddfa 8
Tŷ Iorwerth
39 Heol y Dŵr
Penygroes
Gwynedd
LL54 6LW

01286 882688
post@anturnantlle.com

www.anturnantlle.com
www.canolfan-rhyd-ddu.cymru
www.facebook.com/anturnantlle